OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2000 Rhif 3382 (Cy. 220 )

# ARDRETHU A PHRISIO, CYMRU

## Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) (Diwygio) 2000

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | - - | *12 Rhagfyr 2000* |
| *Yn dod i rym* | - - | *31 Rhagfyr 2000* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru'n gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 140(4) a 143(1) a (2) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988(**1**) a pharagraffau 4, 5 a 6 o Atodlen 8 iddi, ac a freiniwyd bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y maent yn arferadwy yng Nghymru(**2**):

### Enwi, cychwyn a dehongli

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) (Diwygio) 2000 a byddant yn dod i rym ar 31 Rhagfyr 2000.

(2) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "Rheoliadau 1992" yw Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) 1992(**3**).

### Diwygio Rheoliadau 1992

**2.** Ynglŷn â'r blynyddoedd ariannol sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Ebrill 2001, diwygir Atodlenni 1, 2 a 4 i Reoliadau 1992 fel a ganlyn:—

(a) ym mharagraff 4(1) o Atodlen 1, yn lle'r fformwla "(A × £39.90) + (B × 0.00078)" y rhoddir y fformwla "(A × £39.50) + (B × 0.00087)";

(b) ym mharagraff 2(12) o Atodlen 2, yn lle "1.005" y rhoddir "1.004";

(c) ym mharagraff 8(1) o Atodlen 2, yn lle "1.2 per cent" y rhoddir "1 per cent"; a

(ch) yn lle Atodlen 4 i Reoliadau 1992 y rhoddir yr Atodlen a nodir yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn.

(**1**) 1988 p.41.
(**2**) Gweler Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999, O.S. 1999/672.
(**3**) O.S. 1992/3238 a ddiwygiwyd gan O.S. 1993/1505, 1993/3077, 1994/547, 1994/1742, 1994/3125, 1995/3235, 1996/3018, 1997/3003, 1998/2962 a 1999/3439.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**4**).

*D. Elis Thomas*

12 Rhagfyr 2000

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**4**) 1998 p.38.

ATODLEN — Rheoliad 2

"**SCHEDULE 4** — Regulation 6

ADULT POPULATION FIGURES

| *Billing authority area* | *Prescribed figure* |
|---|---|
| Blaenau Gwent | 54,700 |
| Bridgend | 101,400 |
| Caerphilly | 128,300 |
| Carmarthenshire | 132,800 |
| Cardiff | 247,800 |
| Ceredigion | 57,600 |
| Conwy | 88,700 |
| Denbighshire | 70,600 |
| Flintshire | 113,600 |
| Gwynedd | 91,100 |
| Isle of Anglesey | 50,300 |
| Merthyr Tydfil | 42,000 |
| Monmouthshire | 67,500 |
| Neath Port Talbot | 107,000 |
| Newport | 104,300 |
| Pembrokeshire | 87,600 |
| Powys | 99,100 |
| Rhondda Cynon Taff | 184,400 |
| Swansea | 179,700 |
| Torfaen | 68,100 |
| Vale of Glamorgan (The) | 92,200 |
| Wrexham | 96,800" |

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

O dan Ran II o Atodlen 8 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 mae'n ofynnol i awdurdodau bilio yng Nghymru dalu symiau (a elwir yn gyfraniadau ardrethu annomestig) i Gynulliad

Cenedlaethol Cymru. Cynhwysir rheolau i gyfrifo'r symiau hynny yn Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) 1992.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r Rheoliadau hynny drwy roi fformwla newydd ym mharagraff 4(1) o Atodlen 1 (didyniadau o'r swm gros), lluosydd newydd ym mharagraff 2(12) o Atodlen 2 (rhagdybiaethau ynglŷn â'r swm gros), canran newydd ym mharagraff 8(1) o Atodlen 2 (rhagdybiaethau ynglŷn â didyniadau o'r swm gros) ac Atodlen 4 newydd (ffigurau poblogaeth oedolion).